

## DOLEN Y TAB – 4 15–16 Mai 2020

---

### **\*\*BORE SUL 17 MEDI\*\***

Dangosir premier dwy ffilm ar dudalen *Facebook* y Capel y bore Sul yma. Yn y gyntaf bydd Heulyn a Catrin Rees a'r Twmiaid yn cyflwyno neges i'r aelodau. Yna bydd Huw M. Roberts a Bethan Reynolds yn cynnig cân a stori. Cofiwch wylïo!

---

### **CYFARFODYDD Y BWRDD**

Ar waetha'r cyfyngiadau ar ein symudiadau, ni fu aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn segur dros y deufis diwethaf. Fe lwyddwyd i gynnal 'cyfarfodydd' ym mis Mawrth ac Ebrill trwy gyfrwng e-bostiadau. Er mawr gywilydd i ni, nid ydym eto wedi mentro cynnal cyfarfod gan ddefnyddio *Zoom* neu ei debyg, ond efallai y daw hi i hynny os na chaiff y cyfyngu ei lacio cyn diwedd yr haf. Dim ond y materion hynny oedd yn gofyn am benderfyniadau brys neu bwysig a 'draffodwyd' yn y cyfarfodydd hyn.

Rhodddwyd y brif flaenoriaeth i ystyried dau gais i gefnogi gwaith elusennol gwyh y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol dros y misoedd diwethaf trwy ychwanegu swm o gronfa ganolog yr eglwys i chwyddo Apêl y Llifogydd o £1,845 i £2,100, a'r Banc Bwyd o £1,645 i £1,800.

Mater arall oedd ar frig blaenoriaethau'r Bwrdd ym mis Mawrth, sef yr angen i fwrw ymlaen i benodi olynedd i loan fel Rheolwr Safle. Ond ers i ddrwsau'r Capel a'r Ganolfan gau am gyfnod amhenodol, a gwirfoddolwyr o blith aelodau Pwyllgor y Meddiannau yn cadw golwg dros y safle mewn rota, roedd ychydig llai o frys i symud ymlaen i lenwi'r swydd wag. Yn y cyfamser, mae'r Pwyllgor wrthi'n cwrdd yn 'rhithiol' i fwrw golwg dros y swydd-ddisgrifiad cyn cyflwyno argymhelliad i'r Bwrdd ei ystyried yn eu cyfarfod nesaf. Ar ôl derbyn sêl bendith y Bwrdd, caiff y swydd ei hysbysebu.

Cadarnhawyd yn ffurfiol argymhelliad y Gweithgor Ariannol i benodi cyfrifwyr allanol newydd, sef HuwAled Accountants, Eglwys Newydd, yn lle Watts Gregory LLP, gan na allent bellach ein gwasanaethu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi i aelod allweddol o'u staff adael y cwmni. Erbyn hyn, mae'r cyfrifwyr wedi cwblhau eu harchwiliad annibynnol. Gan fod yr adroddiad drafft yn un cadarnhaol, gallwn symud ymlaen i gwblhau'r adroddiad blynyddol erbyn mis Gorffennaf.

Os oes unrhyw fater brys y carech i'r Bwrdd ei ystyried, yna mae pob croeso i chi gysylltu â'r Ysgrifennydd [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) neu ffonio 01443 225205 / 07710 2373217.

## HUNAN-YNYSU

Hyfryd oedd darllen yn rhifyn Mai *Tafod Elái* am brofiadau cadarnhaol Loreen wedi iddi dreulio mis a mwy yn hunan-ynysu gyda Carey yn eu cartref, Bro Dyfed. Roedd yn diolch o galon i'w chymdogion cymwynasgar am fod mor ofalus o'r ddau ohonynt wrth siopa bwyd, casglu moddion a gofalu eu bod yn ymdopi â'r sefyllfa ryfedd sydd ohoni. Roedd hi'n sicr ei bod yn siarad dros bawb ym mhentref Efail Isaf gan fod yno ysbryd cymunedol cryf. Ceir cyfle i godi'r galon bob nos lau pan ddaw pawb allan o'u tai i ddiolch i weithwyr dewr y Gwasanaeth Iechyd ac i gyd-ganu dan arweiniad Huw M ar ei gitâr. Byddai'n braf iawn darllen yn rhifynnau nesaf *Dolen y Tab* am brofiadau aelodau o ardaloedd eraill sydd hefyd yn hunan-ynysu.

### **TAFOD Y TAB**

Y geiriau agoriadol a welwyd ar dudalen flaen rhifyn mis Ionawr o *Tafod y Tab* oedd 'Ar drothwy blwyddyn arbennig yn hanes y Tabernacl...'. Ond nid geiriau proffwydol mohonynt gan mai cyfeirio roeddynt at y cynlluniau i ddathlu'r 150 mlynedd ers ail-agor y Tabernacl yn 1870 yn hytrach na'r pandemig sydd wedi gweddnewid trefniadau byw bob dydd i bawb ar hyd a lled y byd. Ond, fel y gwyddom, mae'n heglwys yn y Tabernacl 'yma o hyd' ac mor weithgar ag erioed.

**Felly, yn ôl ein harfer, cyhoeddir rhifyn o *Tafod y Tab* ddechrau Gorffennaf er mai fersiwn digidol yn unig fydd hwn am y tro. Unwaith eto gofynnwn am gyfraniadau – yn adroddiadau, erthyglau, lluniau ac yn blaen – a hynny erbyn dydd lau 25 Gorffennaf. Dylid anfon y cyfraniadau i [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk).**

### **WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL**

Mai 10–17 yw dyddiadau Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, ac mae'r ffocws a'r dulliau casglu wedi gorfod newid oherwydd yr argyfwng presennol.

Helpu ffoaduriaid Rohingya mewn gweryslyoedd ym Mangladesh a phobl ddigartref yn Nigeria fydd ffocws yr ymgyrch eleni ac, wrth reswm, ni fydd unrhyw gasglu o ddrws i ddrws.


Penderfyniad y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol oedd cynnal casgliad ymhlith yr aelodau, o gofio rhwyddineb a llwyddiant casgliadau felly yn ddiweddar at argyfyngau Llifogydd RhCT a'r Coronafirws. Mae modd anfon siec at Arwyn, ein trysorydd, yn daladwy i Capel y Tabernacl Cyf, gan amgáu nodyn yn dweud Cymorth Cristnogol: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU.

Neu gallwch wneud trosglwyddiad banc gan nodi Cymorth Cristnogol yn y blwch lle gofynnir am gyfeirnod: Cod didoli 30 – 96 – 72 Rhif y cyfrif 03607499. Bydd y casgliad yn para tan ddiwedd mis Mai.

Mae'r gweithgor yn ddiolchgar iawn i Arwyn am ei barodrydd a'i hyblygrwydd di-flino. Mae wedi bod yn brysur iawn gyda'r casgliadau'n ddiweddar.


## NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA

Dydd Llun, 18 Mai, yw Diwrnod Neges Heddwch ac Ewyllys Da Cymru. Ers 1922 mae pobl ifanc Cymru wedi anfon neges o heddwch i bobl ifanc ar draws y byd ar y dyddiad hwn yn flynyddol. Eleni, mae'r neges a luniwyd mewn ymateb i bandemig y Coronaofeirws yn dyheu am weld y byd yn gwrando a dysgu o'r argyfwng presennol. Llwyddwyd i gyfieithu'r neges i'w rhannu dros y cyfryngau cymdeithasol i 57 o ieithoedd fel bod cymaint o bobl ifanc â phosib yn gallu ei darllen yn eu hiaith gyntaf. Isod fe atgynhychir y neges yn y Gymraeg, ond os ewch i wefan yr Urdd ([www.urdd.cymru](http://www.urdd.cymru)) gallwch weld poster i'r holl ieithoedd. Hefyd ar y safle we mae yna weithgareddau i blant a phobl ifanc.



Urdd

### Neges Heddwch ac Ewyllys Da gan bobl ifanc Cymru 2020



### Stopio'r Cloc ac Ailddechrau

Annwyl bobl y byd  
Mae natur wedi ein hysgwyd – mae'n galw amom i ddeffro  
Ry'n ni'n gwario'n ddiangen  
Ry'n ni'n gwastraffu'n ddiangen  
Ry'n ni'n teithio'n ddiangen

Annwyl ieuencid y byd  
Nawr yw'r amser i ddiolch  
Diolch i'r rheiny ar y rheng flaen sydd wedi ein helpu i gario mlaen  
A gyda'n gilydd gallwn greu dyfodol gwell  
Dyfodol o edrych ar ôl ein hunain ac o eraill  
Dyfodol o gofio am y llai ffodus yn ein cymunedau  
Dyfodol o ofalu am y blaned  
Gweithredwch

Annwyl arweinwyr y byd  
Mae Coronaofeirws wedi stopio'r cloc  
Gwrandewch ar bobl ifanc Cymru a'r byd yn sefyll gyda'n gilydd  
Gweithredwch drwy gymryd cyfrifoldeb dros ein dyfodol ni  
Mae'r byd wedi deffro.  
Nawr deffrwch chi.

@Urdd • [f](https://www.facebook.com/urdd) • [i](https://www.instagram.com/urddgobaithcymru) • @Urddgobaithcymru • #heddwch2020 • [www.urdd.cymru/heddwch](http://www.urdd.cymru/heddwch)

## CAPEL TAIHIRION

Ar dudalen 14 o rifyn Mai o *Tafod Elái*, mewn erthygl ddiddorol iawn, ceir hanes mam eglwys y Tabernacl, sef Capel Taihirion. Roedd y capel, sydd bellach yn adfeilion, wedi ei leoli ar y ffordd fawr o Lantrisant i Gaerdydd, rhwng Llanilltern a Rhydlafer. Adroddir mai trwy anogaeth eu gweinidog ifanc, y Parchg Lemuel Smith, yr aed ati i sefydlu'r achos yn Efail Isaf. Ond yn anffodus ni chafodd fyw i weld agor adeilad gwreiddiol y Tabernacl yn 1843 gan iddo farw yn 1942 ac yntau ond yn 27 mlwydd oed. Mae'r erthygl yn cynnwys dau lun – y cyntaf wedi ei dynnu yn 1910 a'r ail ym mis Mai eleni – ynghyd â map o 1888 yn dangos ei leoliad. Nodir enw'r capel ar y map fel Capel Philadelphia. Gobeithio'n fawr y bydd modd i ni ymweld â'r safle pan ail-drefnir y daith hanesyddol yng nghwmni Penri a Pens.

## AMLENNI GWYN A BROWN

Erbyn bore Sul byddwn wedi colli wyth oedfa'n olynol yn y Tabernacl. Wnawn ni ddim gofyn i chi ddyfalu pa mor bell yn ôl yw hi er pan fethwyd cynnal ein hoedfaon yn yr adeilad am gyfnod mor hir yn holl hanes yr eglwys. Yr ateb, wrth gwrs, yw 2015, sef y flwyddyn yr adnewyddwyd y capel. Ond mae'n bwysig cofio bod trefniadau'r flwyddyn honno'n bur wahanol i eleni, oherwydd fe lwyddwyd i gynnal cwrdd bob bore Sul yn Neuadd y Pentref am dros bymtheg mis. Felly, gan nad yw'n ymddangos y byddwn yn cael dychwelyd i gyd-addoli ar y Sul am beth amser eto, mae un o'n prif ffynonellau incwm – sef y casgliadau wythnosol – wedi sychu'n gyfan gwbl am y tro.

I'r rhai hynny ohonoch sy'n arfer cyfrannu'n rheolaidd i'r gronfa eglwys (amlenni gwyn) a/neu'r gronfa elusennau (amlenni brown) drwy'r plât casglu, byddem yn ddiolchgar petaech yn parhau i gyfrannu yn ôl eich arfer drwy anfon sic yn daladwy i *Capel y Tabernacl Cyf.* at ein Trysorydd: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU. Os byddwch yn anfon at Arwyn, rhowch y sic yn yr amlen wen neu frown – fel arall, nodwch eich rhif aelodaeth. Neu gallwch wneud trosglwyddiad banc i gyfrif y capel, gan nodi Casgliad Amlenni Gwyn neu Casgliad Amlenni Brown ynghyd â'ch rhif aelodaeth yn y blwch lle gofynnir am gyfeirnod:  
Enw'r cyfrif: Capel y Tabernacl Cyf.  
Cod didoli: 30 – 96 – 72; Rhif y cyfrif: 03607499.

## Dolen y Tab

*Cylchlythyr wythnosol yw hwn i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org). Cofiwch argraffu copi i'r aelodau hynny heb gysylltiad dros y we. Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rannu erbyn nos lau yn wythnosol i: [gehpenqwert@yahoo.co.uk](mailto:gehpenqwert@yahoo.co.uk) / 01443 225205.  
Diolch.*